



Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau i etholiadau yng Nghymru

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Llywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Papur Gwyn Gweinyddu a Diwygio Etholiadol'.

Hydref 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl i'w gweld ar **dudalen 25**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

E-bost: etholiadau.ymgynghoriad@llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Am y ddogfen yma.....	4
Cyflwyniad.....	5
6 egwyddor.....	7
Rhai o'n nodau hir dymor.....	9
Ei gwneud yn haws i bleidleisio.....	13
Gwneud ein system etholiadol yn gryfach.....	18
Gwella pleidleisio.....	19
Etholiadau Cymru yn y dyfodol.....	21
Hyfforddiant.....	24
Geiriau anodd.....	25

Am y ddogfen yma



Mae'r ddogfen yma am y newidiadau rydyn ni'n meddwl amdany'n nhw i'w gwneud yn haws i bleidleisio a sefyll am etholiadau yng Nghymru.



Fe fyddwn ni yn siarad am y newidiadau rydyn ni eisio eu gwneud i'r gyfraith.



A'r syniadau sydd gennym ni ar gyfer gwneud y **system etholiadol** yn well.

Mae'r **system etholiadol** yn meddwl y ffordd rydyn ni'n pleidleisio i'r bobl rydyn ni eisio i'n cynrychioli ni mewn llywodraeth yng Nghymru.



Mae **ffurflen ymateb** gyda'r llyfryn yma.



Darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda. Yna atebwch y cwestiynau yn y **ffurflen ymateb**. Anfonwch eich atebion inni os gwelwch yn dda erbyn **10 Ionawr 2023**.

Cyflwyniad



Yng Nghymru rydyn ni'n gallu gwneud ein rheolau a'n deddfau ein hunain ar gyfer sut mae llywodraeth leol yn cael ei redeg. A sut rydyn ni'n gwneud etholiadau'r **Senedd**.



Yn y **Senedd** mae deddfau yn cael eu gwneud yng Nghymru.



Rydyn ni'n pleidleisio am bobl mewn etholiadau i'n cynrychioli ni yn Senedd Cymru. Mae'r bobl sydd yn cael eu hethol yn cael eu galw yn **Aelodau o'r Senedd**.



Rydyn ni'n pleidleisio i bobl i'n cynrychioli ni mewn cynghorau a chynghorau cymuned hefyd. Mae'r bobl yma yn cael eu galw yn **aelodau etholedig** neu **gynghorwyr**.



Fe wnaeth Cymru ddechrau gwneud rhagor o benderfyniadau am etholiadau drwy ddeddf o'r enw **Deddf Cymru 2017**.



Pan wnaeth hyn ddigwydd fe wnaeth Cymru rhai newidiadau i sut rydyn ni'n pleidleisio i bobl i'n cynrychioli ni.

Er enghraifft:



- Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed yn cael pleidleisio nawr.
- Mae rhai pobl sydd yn byw yn y DU sydd yn dod o wledydd eraill yn cael pleidleisio.
- Mae awdurdodau lleol yn gallu penderfynu pa fath o system pleidleisio maen nhw yn ei ddefnyddio.



Fe fydd y ddogfen yma yn siarad am y newidiadau eraill rydyn ni eisieu eu gwneud.

6 egwyddor



Mae'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud yn seiliedig ar **6 egwyddor**. Egwyddorion ydy syniadau rydyn ni eisiau eu dilyn.

Y 6 egwyddor ydy:



1. **Cydraddoldeb** – Fe ddylai pob person sydd eisiau pleidleisio allu gwneud hynny. Ac mewn ffordd ddiogel a pharchus.



2. **Hygyrchedd** – Fe ddylai pawb sydd eisiau pleidleisio allu gwneud hynny yn hawdd. Dim ots beth ydy eu hanghenion.



3. **Cymryd rhan** – Rydyn ni eisiau i gymaint o bobl â phosibl ddefnyddio eu hawl i bleidleisio.



- 4. Gwella profiad dinasyddion** – fe ddylai pobl gael y pethau maen nhw eu hangen i wneud newidiadau yn eu cymunedau ac yng Nghymru.



- 5. Syml** – fe ddylai pob rhan o bleidleisio fod yn hawdd i bobl.



- 6. Integriti** – mae hyn yn meddwl bod rhaid i'r system bleidleisio fod yn rhywbeth mae pobl yn ymddiried ynddo.

Rhai o'n nodau hir dymor



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod deddfau am etholiadau yn hawdd i'w defnyddio. Ac yn Gymraeg.



Rydyn ni eisiau iddi fod yn hawdd i bobl bleidleisio. Dim ots beth ydy eu hanghenion

Pleidleisio ar-lein



Gallu pleidleisio ar-lein fyddai'r ffordd orau i lawer o bobl i bleidleisio.



Ond ar hyn o bryd dydyn ni dim yn meddwl bod digon o ddiogelwch i wneud hyn.



Felly, dydyn ni ddim yn mynd i geisio gwneud deddfau am bleidleisio ar-lein eto.



Ond fe fyddwn ni yn edrych ar beth sydd ei angen ar gyfer y math yma o system.

Amrywiaeth



Rydyn ni'n credu y dylai'r **Senedd a llywodraeth leol** fod yn fwy **amrywiol**.

Mae **amrywiol** yn meddwl rhagor o ymgeiswyr yn y **Senedd a llywodraeth leol** o wahanol gefndiroedd, gyda gwahanol alluoedd a barn.



Enghraifft o hyn fyddai gwneud yn siŵr bod rhagor o ymgeiswyr sydd yn ferched.

Cronfa ddata Cymru gyfan



Rydyn ni'n meddwl am greu cronfa ddata Cymru gyfan.



Set o wybodaeth ar-lein fyddai hyn.



Fe fyddai yn ei gwneud yn fwy hawdd i gofrestru i bleidleisio.



Ond fe dyddai'n cymryd amser ac arian i'w greu. Felly rydyn ni wrthi'n dal i benderfynu os ydy hyn yn syniad da.

Pa mor hir mae pobl mewn llywodraeth



Mae angen inni benderfynu pa mor hir ddylai pobl fod yn eu rolau mewn etholiadau llywodraeth leol.



Ar hyn o bryd mae pobl yn aros yn eu rolau am 5 mlynedd, ond fe allai hyn newid.

Ei gwneud yn haws i bleidleisio

Ar hyn o bryd mae rhywun yn gallu pleidleisio ar gyfer y Senedd a chynghorau yng Nghymru os ydyn nhw:



- yn gallu cofrestru i bleidleisio ac
- mewn oedran pleidleisio – 16 oed neu hŷn ar ddiwrnod pleidleisio
- os nad ydyn nhw'n cael pleidleisio, fel y rhan fwyaf o bobl yn y carchar.



Rydyn ni eisiau rhoi'r rheolau am pwy sydd yn gallu pleidleisio mewn un ddeddf fel ei fod yn fwy clir.

Cofrestru awtomatig



Ar hyn o bryd rhaid i bobl gofrestru i bleidleisio. Mae hyn yn cael ei alw yn **Proses Cofrestru Unigol**.



Mae'r awdurdod lleol yn cysylltu gyda phob cartref ac yn edrych i weld bod eu manylion wedi'u diweddarau. Neu os oes angen iddyn nhw gofrestru.



Mae pawb sydd wedi cofrestru ar restr o'r enw y **cofrestr etholiadol**.



Rydyn ni eisiau newid hyn i system **gofrestru awtomatig** ar gyfer etholiadau'r Senedd a chynghorau.



Fe fyddai hyn yn meddwl bod unrhyw un sydd yn gymwys yn gallu cael eu hychwanegu at y **gofrestr etholiadol** gan eu hawdurdod lleol.



Rydyn ni'n meddwl y byddai hyn o help i bobl ifanc sydd nawr mewn oedran pleidleisio.



Ac i bobl sydd wedi symud yma o dramor sydd yn cael pleidleisio.



Rydyn ni hefyd yn meddwl y bydd yn gwneud y system yn fwy syml.



Fe fydden ni yn hoffi cael gwared ar y **gofrestr agored** ar gyfer etholiadau yng Nghymru.



Y gofrestr agored ydy darn o'r gofrestr etholiadol ond dydy e ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau. Mae'n gallu cael ei brynu gan unrhyw berson, cwmni neu gorff. Er enghraifft mae busnesau ac elusennau yn ei ddefnyddio i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad.



Fe fyddai'n meddwl nad ydy gwybodaeth breifat pobl yn gallu cael eu gwerthu i gwmnïau.



Ond fe fyddai'r wybodaeth yn parhau i fod ar gael i rai cyrff. Er enghraifft, os oeddech chi eisiau gwneud cais am gredyd gyda banc.



Rydyn ni eisiau gwybod beth mae pobl yn feddwl am wneud y system yn haws.



Ond hefyd gwneud yn siŵr bod gwybodaeth pobl yn cael ei gadw yn ddiogel.



Felly rydyn ni angen gwybod beth mae pobl yn feddwl am gasglu a storio eu gwybodaeth.

Myfyrwyr a phleidleisio



Dydy llawer o fyfyrwyr prifysgol yng Nghymru ddim yn pleidleisio.



Efallai mai un rheswm ydy nad ydyn nhw yn newid eu cyfeiriad pan maen nhw yn y brifysgol.



Rydyn ni eisiau dechrau gofyn i fyfyrwyr gofrestru i bleidleisio pan maen nhw'n dechrau yn y brifysgol.



Mae hyn wedi bod yn help i fyfyrwyr.



Fe fyddai angen inni weithio gydag awdurdodau lleol a phrifysgolion yng Nghymru er mwyn i hyn ddigwydd.



Yn y tymor hir, fe fydden ni yn hoffi gweld myfyrwyr yn dod yn rhan o'r system **Gofrestru Awtomatig** y gwnaethon ni siarad amdani ar **dudalennau 13 i 16**.

Gwneud ein system etholiadol yn gryfach

Yr iaith Gymraeg



Rhaid i bob cyngor gael **Swyddog Canlyniadau**. Eu gwaith nhw ydy gwneud yn siŵr fod etholiadau yn cael eu rhedeg yn gywir. A bod pleidleiswyr yn cael profiad da.



Mae etholiadau fel rheol yn cael eu rhedeg yn Gymraeg ac yn Saesneg ond does dim rhaid i'r **Swyddogion Canlyniadau** ddilyn deddfau neu reolau arbennig am yr iaith Gymraeg.

Cydraddoldeb



Ond rydyn ni eisiau i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal.



Rydyn ni eisiau gwybod beth mae pobl yn feddwl am y materion yma.

Gwella pleidleisio



Does dim digon o wybodaeth bob amser i helpu pobl pan maen nhw yn pleidleisio.



Pan nad oes gan bobl yr wybodaeth maen nhw ei angen, mae hynny yn gallu eu stopio rhag pleidleisio.



Mae angen gwell gwybodaeth am bleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr i helpu pobl i benderfynu pleidleisio.



Rhaid i bobl gael yr wybodaeth maen nhw ei angen. Ac mewn ffordd maen nhw ei angen.



Er enghraifft, gwybodaeth am bleidleisio mewn Hawdd ei Ddeall.



Dydy rhai pobl gydag anabledd dysgu ddim yn gwybod eu bod nhw **yn gallu** pleidleisio.



Rydyn ni'n gweithio gyda chyrrff i helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am eu hawliau i bleidleisio.



Rydyn ni hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn gallu mynd i mewn a defnyddio **gorsafydd pleidleisio**.

Gorsaf bleidleisio ydy lle mae pobl yn mynd i bleidleisio.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yr offer cywir ar gael i helpu pobl anabl i bleidleisio.




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu pleidleisio beth bynnag ydy eu hanghenion. Fe ddylai eu pleidlais gael ei chadw yn breifat, beth bynnag ydy eu hanghenion.

Etholiadau Cymru yn y dyfodol



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cyfleoedd gorau i bleidleisio.



Rydyn ni wedi rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o bleidleisio mewn rhai rhannau o Gymru.



Er enghraifft, gallu pleidleisio yn fwy cynnar.



Roedd pobl yn dweud eu bod yn hoffi'r cyfle i bleidleisio yn fwy cynnar. Roedd yn ei gwneud yn haws iddyn nhw bleidleisio.



Ond doedd hyn ddim wedi cynyddu'r nifer o bobl oedd wedi pleidleisio.



Rydyn ni'n meddwl bod angen inni wneud rhagor o waith ar hyn cyn penderfynu defnyddio'r math yma o bleidleisio.



Mae angen inni hefyd edrych ar bleidleisio post.



Ma pleidleisio post yn ffordd dibynadwy o bleidleisio.



Ond dydy pobl ddim yn gwybod os ydy eu pleidlais wedi cael ei derbyn neu os ydyn nhw wedi gwneud camgymeriad fyddai yn meddwl na fydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif.



Fe fydden ni yn hoffi i bobl allu cywiro unrhyw gamgymeriad yn eu pleidlais bost.



Rydyn ni wedi rhoi cynnig ar **Gofrestrau Digidol** mewn rhai rhannau o Gymru.



Dyma lle mae gwybodaeth pobl yn cael ei gadw ar gyfrifiadur ac nid ar bapur.



Ac mae wedi gweithio yn dda.



Fe fydden ni yn hoffi datblygu'r ffordd yma fel dewis ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

Hyfforddiant



Ar hyn o bryd mae cynghorwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddi os ydyn nhw eisiau.



Er enghraifft, yn aml mae cynghorwyr yn gwneud llawer o waith i gefnogi pobl sydd fwyaf mewn perygl o niwed. Felly mae'n bwysig eu bod yn deall eu anghenion.



Rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n feddwl am roi hyfforddiant i bob cynghorydd mewn rhai meysydd pwysig.



Fe fyddai'n bwysig i gynghorwyr wybod bod rhaid iddyn nhw wneud rhywfaint o hyfforddiant cyn iddyn nhw gael eu hethol.



Ewch i'r ffurflen ymateb nawr os gwelwch yn dda i ateb y cwestiynau.

Geiriau anodd

Amrywiol

Mae hyn yn meddwl rhagor o ymgeiswyr yn y Senedd o wahanol gefndiroedd, gyda gwahanol alluoedd a barn.

Gofrestr agored

Gofrestr agored ydy darn o'r gofrestr etholiadol ond dydy e ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau. Mae'n gallu cael ei brynu gan unrhyw berson, cwmni neu gorff. Er enghraifft mae busnesau ac elusennau yn ei ddefnyddio i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad.

Gorsaf bleidleisio

Gorsaf bleidleisio ydy lle mae pobl yn mynd i bleidleisio.

System etholiadol

Mae'r system etholiadol yn meddwl y ffordd rydyn ni'n pleidleisio i'r bobl sydd yn ein cynrychioli ni yn y llywodraeth ac sydd yn rhedeg Cymru.